# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 9 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.J. Lemon, J.M. Charles, A.P. Cooper, I.W. Davies, J.A. Davies, M.J.A. Lewis, K. Madge, P.M. Edwards (Ar ran T. Davies), D.C. Evans, W.T. Evans, J.K. Howell, I.J. Jackson, A.W. Jones, H.I. Jones, D.W.H. Richards (Ar ran D.B. Davies), S.M. Allen, J.S. Williams a D.J.R. Bartlett (Ar ran M.K. Thomas)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Rheoli Datblygu;
H. Towns, Rheolwr Rhanbarthol Mwynau a Gwastraff;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltydd Cynllunio);
C. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu;
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu (Y De);
S. Willis, Swyddog Rheoli Datblygu;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 12.20 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.A.B. Davies, T. Davies ac M.K. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol.

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safleoedd:-**

| | |
|---|---|
| **E/33595** | **Addasu tanc storio dŵr a'r sied offer i lety gwyliau ar dir yn Bryngioallt, Felingwm, Caerfyrddin, SA32 7PX;**<br><br>**RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle mewn perthynas ag eiddo cyfagos.** |
| **E/34720** | **8 tŷ pâr o fewn safle presennol ar dir ym Maespiode, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3YS.**<br><br>**RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle mewn perthynas â'r llecyn gwyrdd a'r hen gartref gofal sydd ar fin cael ei ail agor.** |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**4.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/34486** | **Newid defnydd y tir i greu maes parcio cerbydau i gwsmeriaid ar dir ger Stryd Andrew, Llanelli, SA15 3YW;** |
| **S/34872** | **Bwriad i ailosod cawod, bloc tai bach a charborth yn Safle Carafannau, Llwynifan Farm, Heol Troserch, Llangennech, Llanelli, SA14 8AX;** |
| **S/34972** | **Dymchwel adeilad presennol y garej a chodi sied ~~amaethyddol~~ â ffrâm ddur gyda llawr concrid y tu cefn i'r ardd yn 17 Heol y Bryn, Pontyberem, Llanelli, SA15 5AG;** |
| **S/35069** | **Cais am breswylfa ar wahân ar lain ger 1 Heol Penygraig, Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9PA.** |

**4.2 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **S/34900** | **Gosod to ar oleddf yn lle'r to gwastad presennol; newid ac adnewyddu'r llawr gwaelod o fod â thair ystafell wely i ddwy ystafell wely. Bydd y llawr cyntaf newydd yn cynnwys dwy ystafell wely, en-suite, ystafell ymolchi a swyddfa yn New Lodge, Y Llan, Felin-foel, Llanelli, SA14 8DY;**<br><br>**RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle mewn perthynas ag eiddo cyfagos.**<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r datblygiad arfaethedig, a ail-bwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br>• Colli preifatrwydd;<br>• Dominyddiaeth annerbyniol o'r strwythur, yn enwedig ar yr ochr ddeheuol.<br>Daeth y sylwadau i law ar ran yr ymgeisydd mewn ymateb i'r materion a godwyd. Cafwyd ymateb pellach gan y Swyddog Rheoli Datblygu hefyd.<br>Yn sgil y sylwadau uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle. |

**5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/21986** | **Cais am benderfynu ar amodau caniatâd gorchymyn datblygu interim yn Chwarel Maesdulais, Porth-y-rhyd, Sir Gaerfyrddin;**<br><br>[Diwygio amod 10(b) o gychwyn am 0800 i gychwyn am 0730 yn ystod yr wythnos] |
| **W/35024** | **Ystafell baratoi arfaethedig a mannau storio gydag estyniadau i gegin ac ystafell fwyta masnachol yn The Old Board School Guest House, Stryd Fawr, Sanclêr, SA33 4DY;** |
| **W/35078** | **Newid defnydd yr ystafell flaen ar y llawr gwaelod presennol i ystafell driniaeth harddwch (ôl-weithredol) yn 43 Heol Rudd, Caerfyrddin, SA31 1ST.**<br><br>[Amodau ychwanegol yn gysylltiedig â lleiniau gweledeff wrth y fynedfa.] |

**6. COFNODION**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor oedd wedi eu cynnal ar 24 Ionawr 2017 ac ar 9 Chwefror 2017, gan eu bod yn gywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**